

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **10 Ebrill 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-04/17: Presennol

Cadeirydd Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Henry Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Elizabeth Reagan; Cyng. Elizabeth George; Cyng. Wayne T Roberts; Cyng. Sian Williams. Clerc – Dr Catrin Jones.

Diolchwyd i Mr Steffan Jones, Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu Cyngor Gwynedd am fynychu ar gyfer 15-04/17, 16-04/17 ac 18-04/17

2-04/17 Ymddiheuriadau:

Cyng. Robert T Price; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Eirwyn Williams;

3-04/17: Datgan diddordeb

Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

4-04/17: Cadarnhau cofnodion mis Mawrth 2017

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-04/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)

- a. **.Llywodraeth Cymru - Canllaw'r Cynghorydd Da** – nodi bod hwn wedi cael ei gylchredeg i'r Cyngorwyr ar ebost 3/4/2017. Roedd copi caled ar gael gan y Clerc.
- b. **.Adroddiad Panel Annibynnol Cymru** : nodi bod hwn wedi cael ei gylchredeg i'r Cyngorwyr ar ebost 3/4/2017. Roedd y Cynghorydd Sian Williams a'r Clerc wedi mynychu cyfarfod ymgynghori y Panel yn Llandudno ar 26 Ionawr. Roedd adroddiad blynyddol y Panel wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid ac argymhellion y Pwyllgor wedi eu derbyn gan Cyngor Criccieth ym Mis Mawrth (cofnod 9-03/17 c.)
- c. **Etholiadau Mai 2017** – nodi na fyddai etholiad yng Nghriccieth –a phob un o'r Cyngorwyr yn ôl ar y Cyngor – cynhelir Cyfarfod Blynyddol ar Mai 8 2017.

6-04/17: Gohebiaeth

- a. **Un Llais Cymru – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Papur Gwyn "Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddu** – wedi ei lawnsio ym mis Ionawr gan

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol . Roedd gwahoddiad i ymateb erbyn 11 Ebrill 2017. Roedd y Clerc wedi cylchredeg ymateb Un Llais Cymru i'r Cyngorwyr, ac roedd y Cyngor yn cytuno gyda'r sylwadau â wnaed.

Penderfyniad: i dderbyn ymateb Un Llais Cymru ar ran y sector ac nad oedd angen danfon ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor.

- b. **Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn – Asesiad Llesiant Gwynedd a Môn** –Roedd gwahoddiad i ymateb i Adroddiad drafft “Gwynedd: Beth sy'n Bwysig?”, sef asesiad Bwrdd Gwasanaethau Cyheoddus Gwynedd a Môn o'r wybodaeth oedd wedi ei gasglu yn ogystal a barn trigolion ar "Beth sy'n Bwysig". Roedd dau adroddiad, un ar gyfer Ynys Môn ac un ar gyfer Gwynedd.

Penderfyniad: ar sail adroddiad Gwynedd

1 Roedd y Cyngor yn cytuno gyda'r prif negeseuon a oedd yn dod i'r amlwg ar ddiwedd yr asesiad o lesiant lleol

2. Yn yr ymateb, byddai'r Cyngor yn tynnu sylw at y gwaith i lunio Cynllun Cymunedol Criccieth a'r bwriad i gymeryd ystyriaeth o'r nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, a'r asesiad a gwaith pellach gan y Bwrdd Gwasanaethau.

3. Roedd gan y Cyngor ddiddordeb mewn bod yn rhan o ddatblygu Cynllun Llesiant

- c. **Un Llais Cymru- Ymgynghoriad ar gylchlythyr drafft ar gyfer cynllunio safleoedd sipsiwn, teithwyr a siewmyn** (ebost 27/2/2017)

Bwriad y Cylchlythyr newydd oedd i sicrhau bod canllawiau polisi cenedlaethol yn adlewyrchu safbwynt deddfwriaethol a pholisi Llywodraeth Cymru ar Sipsiwn a Theithwyr yn llawn.

Bydd y canllawiau drafft yn:

- diweddarau'r canllawiau cynllunio presennol ynghylch Sipsiwn, Teithwyr a siewmyn teithiol
- egluro sut y dylai data o asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr fod yn sail i ddyrannu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr mewn cynlluniau datblygu lleol
- egluro sut y gallai gweithio'n rhanbarthol fod o fudd i bennu darpariaeth gan awdurdodau lleol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

Penderfyniad: i gytuno gyda bwriad y canllawiau i ddiweddarau y wybodaeth. Nid oedd y Cyngor am yrru sylwadau.

d. Boddhad â Gwasanaethau Un Llais Cymru (ebost 29/3/2017)

Roedd arolwg byr wedi dod oddiwrth Un Llais Cymru. Fel rhan o'i perthynas gyda Llywodraeth Cymru roedd yn rhaid iddi nhw ddarparu gwybodaeth perfformiad ar y gwasanaethau maent yn ei darparu.

Penderfyniad : i ymateb fel a ganlyn

1.A ydych wedi gofyn am gyngor gan Un Llais Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf? Do

2.A oeddech yn fodlon â'r cyngor a ddarparwyd? Oeddem

Mae Un Llais Cymru yn darparu gwasanaethau lloio a chynrychioliadol ar ran cyngorau cymuned a thref e.e. ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, trafod gyda Swyddfa Archwilio Cymru a chyflwyno sylwadau i'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol, i enwi rhai yn unig.

3.A ydych yn fodlon â'r Gwasanaeth Cynrychioliadol a ddarperir gan Un Llais Cymru? Ydym

7-04/17: Ceisiadau Cynllunio

Nid oedd ceisiadau cynllunio wedi dod i law.

8-04/17: Cyngor Gwynedd: 'Cynllun y Cyngor' ar gyfer 2017/18

www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunstrategol

Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi ei Cynllun ar gyfer 2017/18 sy'n gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r awdurdod ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Roedd y Cynllun yn ymestyniad o gynllun strategol y Cyngor a oedd wedi bod yn ei le rhwng 2013 a 2017 ac roedd yn cynnwys amcanion llesiant y Cyngor ar gyfer pobl Gwynedd – Nodwyd bod copïau ar gael ar y Wefan ac yn y llyfrgell yng Nghriccieth.

Tynnwyd sylw i'r elfennau yma yn y Cynllun at sylw y Cyngor:

- Amcanion Llesiant Cyngor Gwynedd
- Cynyddu ail-gylchu
- Lleihau risg llifogydd
- Hybu bywyd gwyllt
- Cadw trefi a phentrefi yn daclus a diogel
- Hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy
- Diogelu iechyd a lles y cyhoedd
- Darparu cyfleoedd teithio i bawb ar draws y sir
- Sicrhau bod gwaith adeiladu yn ddiogel, cynaliadwy ac effeithiol o ran ynni
- Adfywio a chryfhau cymunedau
- Diogelu plant ac oedolion rhag niwed
- Cydweithio â phartneriaid i leihau trosedd ac anhrefn
- Cynnal llwybrau cyhoeddus a meysydd chwarae
- Hybu defnydd y Gymraeg
- Hyrwyddo ein diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau
- Darparu gwasanaeth llyfrgell

- Lleihau costau ynni, allyriadau carbon ac atal llygredd goleuo
- Addysgu a chodi ymwybyddiaeth plant am ailgylchu ac atal sbwriel a graffiti

9-04/17: Oriau y Clerc

Nid oedd y Clerc yn bresennol ar gyfer y drafodaeth am oriau y Clerc.

Penderfyniad: Roedd y Cyngor yn gytun bod llwyth gwaith y Clerc wedi cynyddu yn sylweddol ac y dylid codi yr oriau gwaith o 10 awr i 15 yr wythnos. Cytunodd y Clerc i dderbyn y telerau newydd o'r swydd, hynny yw ymestyn y contract gwaith o 10 awr i 15 awr yr wythnos o'r 1 Ebrill 2017, i'w dalu yn fisol am gyfnod o 52 wythnos y flwyddyn.

10-04/17: Cyfrifon 2016/17

Derbyniwyd y cyfrifon diwedd blwyddyn 2016/17 a oedd wedi eu cylchredeg i'r aelodau. Nodwyd bod y cyfrifon wedi cael eu cyflwyno ar gyfer awdit mewnol gan yr archwilydd a apwyntiwyd gan y Cyngor a bod adroddiad wedi'i dderbyn ganddo yn cadarnhau bod y cyfrifon mewn trefn.

Penderfyniad: Roedd yr archwilydd mewnol wedi cwblhau ac arwyddo yr adrannau perthnasol o'r ffurflen allanol ar gyfer 2016/17. Cyflwynwyd y ffurflen allanol terfynol felly ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc.

Nodwyd bod nifer o gwestiynau wedi codi ynglŷn â'r ohobiaeth dderbyniwyd gan y BDO ar gyfer yr archwiliad allanol a bod Un Llais Cymru yn delio gyda'r materion yma. Bydd diweddariad i'r Cyngor pan ddaw ymateb.

11-04/17 Cyllideb 2017/18

Roedd yna gynnydd am fod yng ngwariant y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd:

- cyfrannu at waith atgyweirio gan Cyngor Gwynedd nad oedd wedi cymeryd lle yn 2016/1
- paentio y cysgodfannau
- cynnydd yn oriau gwaith y Clerc
- torri

Nid oedd y Cyngor wedi codi lefel y praesept ar gyfer 2017/18 ond byddai angen ystyriaeth ofalus ar gyfer praesept 2018/19

Penderfyniad: i ychwaengu £10,000 o'r tanwariant i'r gyllideb ar gyfer 2017/18. Hefyd i gael llinell benodol ar gyfer y cyfraniad blynyddol i'r Neuadd Goffa. (Gweler Atodiad 1)

12-04/17 Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth-

Derbyniwyd gofnodion cyfarfod y Grŵp dyddiedig 27 Mawrth 2017.

Trafodwyd y materion canlynol:

- 6-03/17 a. Rhaglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf –nodwyd y syniad am brosiect ieuenctid ac arddangosfa yn y Neuadd a’r bwriad o geisio am grant i gefnogi y gwaith yma. Cytunwyd y dylai’r Clerc ysgrifennu at CADW a Chyngor Gwynedd i holi am leoliad posib i’r goelcerth ar gyfer y cofiant.

- 6-03/17 b- Siarter Coed Coedwigoedd a Pobl – nodwyd bod y Cyngor Tref wedi cofrestru yn gangen o’r Siarter. Trafodwyd y syniad o gynllun ar gyfer plannu coed yn y dref ac y dylid ymgynghori gydag arbennigwr ar gyfer hyn

-7-03/17 –Cynllun Cymunedol Criccieth – nodwyd adroddiad Cerys Thomas – a bod yn Grŵp Llywio yn awyddus i weithredu ar sail y gwaith yma. Roedd cyfarfod maes wedi cymeryd lle yn ddiweddar gyda’r pensaer i baratoi cynlluniau o rhai’r o’r prosiectau. Roedd yn debygol y byddai cynlluniau drafft ar gael mewn tua mis. Nodwyd bod trafodaeth wedi bod am y syniad o ddatblygu y tir tu flaen i’r Bad Achub ac chytunwyd y dylai’r Clerc ysgrifennu at Cyngor Gwynedd ynghlŷn â hyn, er mwyn ceisio elwa ar y gwaith oedd yn digwydd ar y safle ar hyn o bryd.

- 9-03/17 Cronfa John Trefor Roberts – Nodwyd bod y Clerc wedi ysgrifennu at Age Gwynedd a Môn i holi am gopiau o fanylion am yr Ymddiriedolaeth a’r cytundeb rhwng y Cyngor ag Age Gwynedd a Môn. Cytunwyd y dylid rhoi y mater ar agenda y Cyngor ar gyfer y cyfarfod nesa.

Penderfyniad: i dderbyn cofnodion y Grŵp a’r gweithrediadau a nodwyd uchod.

13-04/17 Parcio yng Nghriccieth

Nodwyd bod y Clerc wedi cael cadarnhad y byddai ychwanegu dymuniad y Cyngor i gael llinellau melyn rhwng yr orsaf bad achub a Blue China yn weithredol drwy gydol y flwyddyn yn cael ystyriaeth gan Cyngor Gwynedd diwedd 2017

14-04/17 Goleuadau Nadolig

Nodwyd nad oedd rhagor o fanylion wedi ei dderbyn am gostau ychwanegol ar gyfer ehangu y goleuadau yn 2017.

15-04/17: Llwybr o Benaber i’r parc

Nododd Mr Steffan Jones y byddai y gwaith yma yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Byddai yn cadarnhau yr amserlen gyda’r Clerc.

16-04/17: Torri gwair yn y dref

Cafwyd trafodaeth gyda Mr Steffan Jones am y torri gwair yn y dref a'r ffaith bod y Cyngor yn anfodlon gyda safon y gwaith llynedd. Roedd y Cynghorwyr hefyd wedi derbyn nifer o gwynion gan drigolion am y gwaith. Roedd Cyngor Gwynedd wedi torri lawr ar y toriadau i arbed costau. Ar sail hyn roedd Cyngor Criccieth wedi tendro am un toriad gwair ychwanegol ar gost i'r Cyngor Tref ac felly angen amserlen ar gyfer y torri gwair gan Cyngor Gwynedd. Roedd y toriad cyntaf gan y Cyngor wedi cychwyn y diwrnod hwnnw ac 'roedd hyn yn rhy hwyr ym marn y Cyngor Tref. Cadarnhaodd Mr Jones y byddai'r ail a'r trydydd toriad yn disgyn ar gylch chwech wythnos wedi hyn, yn ddibynol ar y tymor tyfu. Mi wnaeth addo gysylltu gyda'r Clerc gydag amserlen benodol. Hefyd, ar gyfer y dyfodol, dywedodd y byddai y Cyngor yn barod i gynnig pris am wneud toriadau ychwanegol.

17-04/17: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol

Nodwyd bod symud y Llyfrgell wedi ei ohirio a doedd dim dyddiad penodol erbyn hyn.

18-04/17: Llwybrau Cyhoeddus

-Cadarnhaodd Mr Steffan Jones y byddai y gwaith ar risiau Abereistedd yn cymeryd lle yn dilyn y gwaith traeniad dŵr (gweler 15-04/7) . Nodwyd hefyd y byddai gwaith atgywiro yn digwydd ar llwybrau troed yn y dref.

- Nodwyd bod yna ohebiaeth wedi dod gan Cyngor Gwynedd am yr ad-daliad costau ar gyfer llwybrau yn 2017/18.:

"Ym mis Tachwedd llynedd ysgrifennodd Dafydd Williams , Pennaeth yr Adran Rheoleiddio at y Cynghorau Cymuned a Thref i egluro'r trefniant ar gyfer ad-dalu costau cynnal llwybrau cyhoeddus yn 2017 / 18, gyda'r llythyr roedd holiadur byr a hoffwn ddiolch i bob Cyngor sydd wedi ymateb. Er eich gwybodaeth rwyf yn amgau y llythyr a'r holiadur.

Gan ein bod nawr yn agos i gychwyn y flwyddyn ariannol newydd rydym yn cysylltu â'r Cynghorau Cymuned a Thref i gadarnhau'r swm sydd wedi ei glustnodi ar gyfer pob Cyngor sydd am fod yn rhan o'r drefn ad-dalu yn ystod 17 / 18".

Nodwyd bod swm o £325.00 ar gyfer Cyngor Tref Criccieth.

Penderfyniad: bod y Cyngor am fod yn rhan o'r drefn ad-dalu yn ystod 2017/18.

19-04/17: Derbyniadau

Dim

20-03/17: Taliadau

- | | |
|---------------------------------|-----------------------|
| • Cyllid y Wlad (PAYE) Chwefror | £76.60 (siec 101054) |
| • Cyflog y Clerc (Chwefror) | £306.74 (siec 101055) |
| • Resources for Change Ltd | £496.14 (siec 101056) |

Rhodddwyd ganiatad i'r clerch i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref, Y Cyfarfod Blynyddol ar **nos Lun 08 Mai 2017**.

****Bydd y rhaglen yma yn cau 29 Ebrill 2017****

Atodiad 1

Cyllideb Cyngor Tref Criccieth ar gyfer 2017/18

Incwm

Praesept	£34,000
Arall (trosglwyddiad tan wariant praesept)	£10,000
Cyfanswm	£44,000

Gwariant

Cyflog	£7,600
Yswiriant	£1,700
Cynnal llwybrau	£1,600
Trwsio stepiau	£975
Llwybr Penaber i'r Parc	£900
Torri Gwair	£3,000
Rhent stafell (Llyfrgell)	£50
Stampiau	£150
Costau swyddfa	£100
Aelodaeth	£275
Cyfrifon (archwilio)£500
Cyrsiau£300
Nadolig	£8,000
Sul y Cofio£25
Deddf data£35
Costau Clerch£850
Toiledau	£6,000
Manion/arall	£1,500
	£33,560

Cyfraniad Neuadd Goffa	£5,000
Prosiectau a chyfraniadau eraill	£5,440

CYFANSWM CYLLIDEB **£44,000**